# ATODLEN 11

# PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

## RHAN 1

## CYNGHORAU SY'N UNO

*Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno*

1 (1) Rhaid i gynghorau sy'n uno sefydlu pwyllgor pontio yn union ar ôl gwneud cais i uno.

(2) Mae'r cyfeiriadau at bwyllgor pontio yn y Rhan hon o'r Atodlen hon yn gyfeiriadau at bwyllgor pontio a sefydlir o dan is-baragraff (1).

*Aelodaeth pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno*

2 (1) Rhaid i bwyllgor pontio gynnwys nifer cyfartal o aelodau, heb fod yn llai na 5, o bob un o'r cynghorau sy'n uno.

(2) Rhaid i aelodau cyngor sy'n uno sydd i fod yn aelodau o'r pwyllgor pontio gael eu penodi gan y cyngor sy'n uno.

(3) Nifer aelodau'r pwyllgor sydd i'w penodi gan bob un o'r cynghorau sy'n uno yw'r nifer y cytunir arno gan y cynghorau sy'n uno neu, os na cheir cytundeb, y nifer y penderfyna Gweinidogion Cymru arno.

(4) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor sy'n uno fod yn un o aelodau'r pwyllgor a benodir gan y cyngor sy'n uno.

(5) Os nad yw eisoes wedi ei benodi o dan is-baragraff (4), rhaid i'r aelod gweithrediaeth yn y cyngor sy'n uno sy'n gyfrifol am gyllid gael ei benodi'n aelod o'r pwyllgor yn ogystal.

(6) Caiff pwyllgor pontio gyfethol personau ychwanegol i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor ond ni chaiff y rhain bleidleisio.

(7) Mae pwyllgor pontio i'w drin at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) (cydbwysedd gwleidyddol ar bwyllgorau awdurdodau lleol) fel corff sy'n dod o fewn paragraff 2 o'r Atodlen honno.

(8) Yn y paragraff hwn ystyr "prif aelod gweithrediaeth"—

(a) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet, yw'r arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, yw'r maer etholedig.

*Swyddogaethau pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno*

3 (1) Rhaid i bwyllgor pontio ddarparu cyngor ac argymhellion i'r cynghorau sy'n uno, ac i'r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd, ynglŷn ag—

(a) hwyluso trosglwyddo swyddogaethau, staff a hawliau ac atebolrwyddau eiddo mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon o'r cynghorau sy'n uno i'r prif gyngor newydd,

(b) sicrhau bod y prif gyngor newydd a'i staff mewn sefyllfa i gyflawni swyddogaethau'r prif gyngor newydd yn effeithiol o'r adeg pan fydd yn eu hysgwyddo, ac

(c) unrhyw ddibenion eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i'r pwyllgor pontio.

(2) Rhaid i bwyllgor pontio hefyd roi cyngor ag argymhellion i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i'r pwyllgor.